## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Diwygio) (Cymru) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Diwygio) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
19 Chwefror 2026

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026 ("y prif Reoliadau") er mwyn cywiro gwallau yn y prif Reoliadau a ddaeth i'r amlwg wrth i'r Cofrestrydd OS (ar ran Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru) gofrestru'r Rheoliadau hynny.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro tri mater yn y prif Reoliadau. Yn achos y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn, mae'n briodol bod y cywiriadau hyn yn cael eu gwneud cyn y daw'r prif Reoliadau i rym. Mae'n ddymunol bod y diwygiad a wneir gan reoliad 3 yn cael ei gywiro ar yr un pryd. Daw'r Rheoliadau hyn felly i rym ar 1 Mawrth 2026. Gan fod y Rheoliadau hyn yn dod i rym lai nag 21 o ddiwrnodau ar ôl iddynt gael eu gosod, mae llythyr eglurhaol wedi ei anfon at y Llywydd yn unol ag adran 37E(6) o Ddeddf Deddfwriaeth Cymru 2019.

Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn cyhoeddiad am ddim gan eu bod yn cywiro gwallau yn y prif Reoliadau.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2, 56(5) a (6), 57, 58, 60(2), 61, 125(1), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd a byddant yn dod i rym ar 1 Mawrth 2026.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro tri mater yn y prif Reoliadau:

- mae rheoliad 2 yn amnewid Atodlen 1 i'r prif Reoliadau, dim ond yn y testun Saesneg, er mwyn cywiro gwallau yn strwythur a fformat paragraffau 23 i 25 o'r Atodlen honno. Oherwydd y daeth gwallau canlyniadol i'r amlwg o ran y rhifo ym mharagraffau dilynol Atodlen 1,

penderfynwyd y byddai amnewid yr Atodlen gyfan yn sicrhau diwygiad taclusach, gan arwain at sefyllfa gliriach i ddarllenwyr y prif Reoliadau.

- mae rheoliad 2 yn cywiro gwall teipograffyddol yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 2;
- mae rheoliad 3 yn amnewid y tabl yn Atodlen 5 (yn nhestun y ddwy iaith) sy'n cael yr effaith o ddisodli'r lefelau ffioedd cleifion, sy'n anghywir ar hyn o bryd, a ddangosir yn ail golofn y tabl hwnnw. Ar 23 Medi 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd cleifion yn cyfrannu 50% o gost eu triniaethau. Y ffigurau yn y tabl yn Atodlen 5 i'r prif Reoliadau fel y'u gwnaed, oedd mewn gwirionedd y ffigurau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Ar 27 Mawrth 2025, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar gynigion i ddiwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yng Nghymru. Ceisiodd yr ymgynghoriad hwn adborth ar wahanol elfennau'r diwygiad arfaethedig, gan gynnwys lefelau ffioedd cleifion. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Mehefin 2025.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Diwygio gwasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG | LLYW.CYMRU

## 5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Caiff diwygiadau ffeithiol eu gwneud i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth, a chan nad yw'r diwygiadau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ynghylch cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. At hynny, o ran y diwygiadau ynglŷn â ffioedd cleifion, gwnaeth yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y prif Reoliadau nodi effaith bwriadedig y diwygiadau hyn.

Gellir dod o hyd i eglurhad o effaith Atodlen 1 a'r tabl yn Atodlen 5 yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y prif Reoliadau a osodwyd gerbron y Senedd ar 11 Chwefror 2026.